Hawdd ei Ddeall

# Gwybodaeth am swydd y Llysgennad gyda Ffrindiau Gigiau Cymru




- Codi ymwybyddiaeth o Ffrindiau Gigiau Cymru a hyrwyddo'r prosiect yng ngogledd Cymru.
- Helpu ffrindiau gigiau i gynllunio digwyddiadau cymdeithasol.



**Swydd:** Llysgennad Ffrindiau Gigiau Gogledd Cymru



**Cyflog:** Dechrau ar £3,605 y flwyddyn. Mae hyn yn £13.86 yr awr

Mae gennym ni wahanol lefelau o gyflog. Mae'r swydd ar lefel C.



**Oriau:** 5 awr yr wythnos Gallwch weithio hyn yn hyblyg trwy gydol y mis.  Byddwch yn gweithio o'ch cartref ac yn teithio'n annibynnol yng ngogledd Cymru.



**Rheolwr:** Uwch Gydlynydd

**Mae'r swydd yn cael ei hariannu tan 30 Mehefin 2028.**

# Tasgau

## Hyrwyddo'r prosiect Ffrindiau Gigiau



Siarad â phobl am Ffrindiau Gigiau a sut y gallant gymryd rhan. Mae hyn yn ein helpu i recriwtio gwirfoddolwyr a chyfranogwyr newydd.

Byddwch yn gwneud hyn drwy:



- Siarad am Ffrindiau Gigiau gyda sefydliadau a grwpiau.




- Helpu i redeg stondin mewn digwyddiadau a lleoliadau.



- Gwneud fideos ar gyfer cyfryngau cymdeithasol Ffrindiau Gigiau



- Cymryd rhan mewn cyfweliadau i'r cyfryngau.




- Rhannu taflenni a gwybodaeth o fewn cymunedau yng ngogledd Cymru.




- Gweithio gyda'r Llysgenhadon Stay up Late i helpu i hyrwyddo Ffrindiau Gigiau Cymru a Stay up Late.

## Cynllunio digwyddiadau cymdeithasol



- Cynllunio ac arwain cyfarfodydd gyda ffrindiau gigiau i drefnu digwyddiadau cymdeithasol.



- Cadw mewn cysylltiad â'r holl ffrindiau gigiau i gael eu syniadau ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol.




- Edrych ar beth oedd pobl yn ei feddwl am y digwyddiadau cymdeithasol ar ôl iddynt fynychu.

## Tasgau eraill



Gweithio'n agos gyda'r Cydlynydd Cymorth Prosiect a'r tîm Ffrindiau Gigiau.

Cymryd rhan yng nghyfarfodydd tîm Ffrindiau Gigiau Gogledd Cymru.

| | |
|---|---|
| Yn weithredol o | Awst 2025 |
| Cymeradwywyd gan | Zoe Richards, Prif Swyddog Gweithredol a Karen Warner, Rheolwr Arloesi |
| Derbyniwyd gan | |

CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND